Children in Wales
Plant yng Nghymru

iobi Injury Observatory Britain & Ireland

CAPIC Collaboration for Accident Prevention and Injury Control

Wales Centre for Health
Canolfan Iechyd Cymru

Annwyl Syr/Madam

Yr ydym wrth ein boddau cyhoeddi y bydd yr **2ail Gynhadledd Atal Anafiadau y DU ac Iwerddon** yn cael ei chynnal yng **Ngwesty'r Angel, Caerdydd ar y 24ain a'r 25ain o Fedi 2009**.

Fe fydd y gynhadledd ddeuddydd hon, a drefnir gan Arsyllfa Anafiadau Prydain ac Iwerddon (IOBI) yn cael ei chynnal ar y cyd gan Plant yng Nghymru, Cefnogi Cydweithredu er mwyn Lleihau Damweiniau a Rheoli Anafiadau (CAPIC) a Chanolfan Iechyd Cymru.

Fe fydd y gynhadledd yn canolbwyntio ar atal anafiadau i blant ac oedolion ieuainc, yn cynnwys y rhai hynny a achosir oherwydd damweiniau, trais a hunan-niwed. Fe fydd yn amlygu tystiolaeth o ymarfer da a llwyddiant mewn gweithredu rhaglenni, ac fe fydd yn canolbwyntio ar sut y mae neu sydd y bydd y wybodaeth, polisi neu ymyriad yn y cyflwyniad yn ddefnyddiol ar gyfer ymarferwyr a llunwyr polisi ym maes atal anafiadau.

Fe fydd y digwyddiad o ddiddordeb i ymarferwyr, ymchwilwyr, llunwyr polisi, ymarferwyr ym maes iechyd y cyhoedd a chyrff gwirfoddol sy'n ymwneud ag atal anafiadau. Fe fydd yn darparu cyfle i bobl o gymysgedd o ddisgyblaethau ddod ynghyd a rhannu tystiolaeth o heriau ac effeithiau cyfredol ac yn y dyfodol anafiadau yng nghymdeithas heddiw. Fe fydd yna sesiynau ar bynciau yn cynnwys gwerthuso mentrau lleol, atal anafiadau yn y cartref ac ar y ffyrdd, atal hunan-niwed a thrais, data anafiadau a dulliau ymchwil, a sut i ymgysylltu â llunwyr polisi.

Fe fydd y gynhadledd yn costio £150 am y ddau ddiwrnod, neu £90 am ond 1 diwrnod. Yr ydym yn hefyd falch i cynnig gostyngiad i elusennau gofrestredig sydd yn costio £130 am y ddau ddiwrnod, neu £75 am ond 2 diwrnod. Y mae yna nifer cyfyngedig o leoedd â chymhorthdal ar gael ar gyfer aelodau Rhwydwaith Cyfnewid Arferion a Gwybodaeth am Atal Damweiniau i Blant (CHAPPIE) ar gost o £55 y person am bob diwrnod.

I lawrlwytho'r rhaglen dros dro, i neilltuo lle neu i gyflwyno crynodeb, cliciwch ar y ddolen ganlynol, os gwelwch yn dda:

http://www.injuryobservatory.net/2nd_injury_conference.html

Y dyddiad cau ar gyfer crynodebau yw'r 30ain o Ebrill 2009.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, a fyddech cystal â chysylltu â Plant yng Nghymru ar 02920 342434 neu anfonwch e-bost at neilltuolle@plantyngnghymru.org.uk

Llawer o ddiolch, ac fe edrychwn ymlaen at eich gweld.

Samantha Turner